

Sut ydw i'n...?

Canllawiau ar gyfer yr iPhone a'r iPad

Recordio fideo a'i gadw ar OneDrive



Y ffordd hawsaf o anfon fideo at eich tiwtor yw drwy OneDrive. Mae'r canllawiau hyn yn dangos ichi sut i recordio fideo gan ddefnyddio'ch iPhone neu iPad a'i lanlwytho i OneDrive.

1


Gosod OneDrive



Ewch i'r **App Store** ar eich iPhone neu iPad



Chwiliwch am **Microsoft OneDrive** a'i osod ar y teclyn




Agorwch yr ap a mewngofnodi gan ddefnyddio'ch manylion yn y Drindod Dewi Sant

2

Recordio'ch fideo



Agorwch eich ap **Camera**



Recordiwch eich fideo

Cofiwch ffilmio gyda'r camera ar draws ac nid ar i fyny




3

Lanlwytho'ch fideo i OneDrive




Ar ôl gorffen recordio, agorwch eich ap **Oriel**



Chwiliwch am eich fideo a'i ddewis, wedyn dewis **Share**

Dewiswch **OneDrive**. Os nad yw'n un o'r opsiynau bydd angen ichi ddewis **More**. Chwiliwch am OneDrive yn y rhestr, toglwch ef ymlaen ac wedyn tapio **Done** yn y gornel dde uchaf. Wedyn cewch opsiwn i lanlwytho'r ffeil i'ch OneDrive.



I gael canllawiau ynghylch sut i rannu'r ffeil o'ch OneDrive, gwelwch ein canllawiau **"Rhannu fy ffeiliau gan ddefnyddio OneDrive"**